Mae Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Prifysgol Bangor yn falch o gyhoeddi lansiad ein rhaglen Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio newydd, wedi'i dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Cynlluniwyd ein cwrs i ddarparu llwybr hyblyg i gyn-nyrsys ddychwelyd i fyd deinamig ymarfer clinigol. Mae hefyd yn addas i unigolion sydd wedi ymuno â'r gofrestr dros dro, ac sy'n dymuno dychwelyd yn barhaol. Mae ein rhaglen yn darparu profad dysgu pwrpasol ym mhob maes nyrsio sy'n canolbwynto ar ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniadau, adnewyddu gwybodaeth, a chefnogi hyfedredd mewn sgiliau a gweithdrefnau clinigol.

Mae hwn yn gwrs gradd, 30 credyd, ar lefel 6. Gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, defnyddir cymysgedd o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb i ddiweddaru eich gwybodaeth nyrsio, ac yn sail i hyn oll mae egwyddorion gofal diogel, efeithiol sy'n canolbwynto ar yr unigolyn.

Bydd gwybodaeth a sgiliau clinigol yn cael eu cyfuno yn ystod lleoliad rhan-amser o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yma byddwch yn derbyn cefnogaeth ardderchog gan aseswyr ymarfer a goruchwylwyr, wrth brof'r ystod o wasanaethau a gynigir gan y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru.

Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn gwella rhagolygon cyfogaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.  Mae gan y cwrs hanes rhagorol o gynorthwyo myfyrwyr llwyddiannus i ddychwelyd i gyfogaeth a hyforddiant clinigol pellach.

• Bloc theori rhan-amser cychwynnol o 10 diwrnod • Lleoliad clinigol rhan-amser: 150-450 awr, yn dibynnu ar yr amser ers eich profad blaenorol, a thystolaeth o brofad a dysgu blaenorol (cydnabod dysgu blaenorol trwy brofad).

• Mae bwrsariaeth gwerth £3000 ar gael gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i fyfyrwyr cymwys.

• Mae'r modiwl hwn ar gael yn ddwyieithog, gyda chefnogaeth diwtorial trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Cyfwynir y rhaglen trwy gymysgedd o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys darlithoedd, twtorialau, gweithdai a gwaith grŵp. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu defnyddio'r ofer Technoleg Gwybodaeth perthnasol a'r rhyngrwyd i fynychu'r theori.

• Dangos y gallu i gynnal asesiad nyrsio cywir a thosturiol o bobl gan ddefnyddio sgiliau diagnostg priodol a sgiliau gwneud penderfyniadau wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal mewn modd efeithiol.
• Gwerthuso'n feirniadol, cymhwyso gwybodaeth, a dangos y sgiliau i fod yn weithiwr profesiynol atebol, gan weithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal diogel a thosturiol ar sail tystolaeth, sy'n canolbwynto ar yr unigolyn.
• Datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau, datrys problemau a dadansoddi'n feirniadol.
• Diweddaru sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol. Myfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer eich hun, gan wella hunanymwybyddiaeth i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwytnwch.

"Dwi wir yn teimlo'n barod i fynd yn ôl allan i ymarfer eto ar ôl gwneud y rhaglen yma. Mae'r cwrs wedi rhoi lot o bethau i f eu defnyddio, efo fyrdd newydd o asesu cleifon a digon o bethau i feddwl amdanyn nhw. Dwi wir wedi ei fwynhau a dwi nawr yn gweithio mewn ymarfer clinigol fel nyrs staf amser llawn ar uned asesu meddygol acíwt brysur. Diolch am y gefnogaeth hyblyg ac am bob dim dwi wedi ei ddysgu trwy gydol y cwrs."

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd yn rhan o Brifysgol Bangor sy'n brifysgol arloesol, lle mae rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil yn cael ei ategu gan gefnogaeth unigol, yn amrywio o diwtor personol, twtor cyswllt, hwyluswyr addysg ymarfer, a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

Os hofech gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn, cysylltwch â:
Mrs Jo Jones, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd,
Fron Heulog, Bangor, Gwynedd, LL572EF.
01248 383904
jo.jones@bangor.ac.uk neu
ľ Ơ Ş 2 E nlluƱaƯ ɔ